

## Telerau ac Amodau'r Ganolfan Rheolaeth

Bydd gwasanaethau a chyfleusterau yn y Ganolfan Rheolaeth yn cael eu darparu yn unol â'r telerau a'r amodau canlynol. Mae Telerau ac Amodau ar wahân ar gael ar gyfer darparu Lleoliadau a Llety (adran 2) a darparu Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol (adran 3). Mae'r holl adrannau eraill (1, 4-9) yn berthnasol i'r ddwy ddarpariaeth.

### 1. Ymholiadau a Cheisiadau

- 1.1 Gellir gwneud ymholiadau a cheisiadau i'r Ganolfan Rheolaeth trwy lythyr, ffacs, dros y ffôn, ar e-bost neu'n bersonol, ond mae'n rhaid cadarnhau'n ffurfiol trwy un ai:  
i.gyflwyno ffurflen archebu ynghyd â rhif archeb brynu neu gyfeirnod CBPB  
Ffôn: 01248 365900, ffacs: 01248 365947; e-bost: info@themanagementcentre.co.uk  
ii. dychwelyd contract wedi'i lofnodi ar gyfer Darpariaeth Hyfforddiant i'r Adran Hyfforddi briodol
- 1.2 Ystyrir mai'r sawl sy'n cyflwyno'r ffurflen gais yw'r "llogwr" a bydd yn gyfrifol am gadw at y telerau a'r amodau.
- 1.3 Dylid enwi'r sawl sy'n gyffredinol gyfrifol yn ystod y cyfnod llogi os yw'n wahanol i'r uchod.
- 1.4 Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i ofyn i'r llogwr am wybodaeth yn ymwneud â defnyddio'r Ganolfan Rheolaeth, a gwrthod y cais am archeb heb gyflwyno unrhyw wybodaeth bellach.
- 1.5 Ystyrir yr archeb yn un 'dros dro' nes bod ffurflen archebu wedi'i chwblhau ac unrhyw flaendal y gofynnwyd amdano (hyd at 20%) wedi'i dalu. Bydd angen sicrhau archebion ar gyfer llety gyda cherdyn credyd / debyd.

### 2. Lleoliad a Llety

#### A. Polisi Archebu, Prisiau a Thalu

- 2.1 Mae prisiau safonol ar gael ar gyfer llogi mwyafrif yr ystafelloedd a'r cyfleusterau. Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn cadw'r hawl i amrywio'r prisiau yn ôl ei disgrisiwn ac mae'r penderfyniadau a wneir gan y Ganolfan Rheolaeth ar brisiau yn derfynol.
- 2.2 Gall prisiau gostyngol fod ar gael oherwydd amrywiadau tymhorol ac nid oes modd eu trosglwyddo i bartion eraill.
- 2.3 Caiff prisiau eu cadarnhau cyn gwneud yr archeb a chael eu cytuno gan y ddwy ochr.
- 2.4 Caiff anfoneb ei hanfon i'r sefydliad neu'r adran sydd wedi llogi'r cyfleuster ar ôl y digwyddiad. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol am ddefnyddio'r Ganolfan Rheolaeth yn ystod y cyfnod llogi, er enghraifft, gwasanaethau ysgrifenyddol megis anfon ffacs, nwyddau traull, ac ati. Mae'n rhaid talu'r anfonebau o fewn 30 diwrnod a chodir llog os telir yn hwyr. Mae'n rhaid talu'r cyfrifon llety wrth adael neu drwy anfoneb fel a gytunwyd.  
Nid yw'r prisiau a ddangosir ar gyfer llogi ystafelloedd yn cynnwys TAW, lle bo TAW yn berthnasol.  
Mae telerau talu caeth o 30 diwrnod ar gyfer anfonebau am ddigwyddiadau a lletygarwch. Mae'n rhaid talu am archebu llety wrth adael neu drwy anfoneb sy'n cynnwys telerau talu o 30 diwrnod.

#### B. Polisi Canslo

- 2.8 Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw ganiatâd i ddefnyddio'r adeilad ar unrhyw adeg am unrhyw reswm a ystyrir sy'n angenrheidiol gan y Ganolfan, neu os yw angen yr adeilad at ddibenion eraill, neu os difrodwyd yr adeilad neu os bu unrhyw dor-cyfraith. Ni thelir unrhyw iawndal i'r llogwr nac i unrhyw un arall am y trefniant a ganslwyd. Caiff unrhyw ffioedd a dalwyd eu dychwelyd fel rheol, ac eithrio pan fydd y trefniant wedi ei ganslo oherwydd difrod.
- 2.9 Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i wrthod archebion os oes gan y cwsmer gyfrif sy'n cynnwys unrhyw daliadau sydd heb eu gwneud. 2.10 Mae taliadau canslo digwyddiadau'n gymwys: Cyn pen 72 awr, neu os na fydd neb yn ymddangos – 100%  
Mae taliadau canslo llety'n gymwys: Cyn pen 24 awr, neu os na fydd neb yn ymddangos – 100%  
Mae taliadau canslo llety grwpiau'n gymwys: O fewn 6 wythnos, neu os na fydd neb yn ymddangos - 100%. I fyny i 2 ystafell o fewn 24 awr.

#### C. Force Majeure

- 2.11 Yn amodol ar Gymal 2.12, ni fydd y naill barti na'r llall yn atebol am unrhyw fethiant neu oedi i gyflawni ei ymrwymadau dan y Telerau a'r Amodau hyn os achosir y cyfryw fethiant neu oedi yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan unrhyw amgylchiad neu ddigwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y cyfryw barti, ac na allai'r cyfryw barti fod wedi ei rwystro trwy weithredu ymarfer da neu drwy weithredu medr a gofal rhesymol (pob cyfryw amgylchiad neu ddigwyddiad yn "Ddigwyddiad Force Majeure"), a chymryd na fydd unrhyw beth yn y Cymal C hwn yn rhyddhau'r naill barti na'r llall rhag gwneud taliadau pan fônt yn ddyledus o dan y Telerau a'r Amodau hyn.
- 2.12 Os dymuna parti hawlio ymwared dan y Cymal C hwn, rhaid iddo roi rhybudd i'r parti arall drwy lythyr neu e-bost ddim diweddarach na phedair awr ar hugain (24) ar ôl i'r Digwyddiad Force Majeure dan sylw ddigwydd, gan egluro beth yw'r Digwyddiad Force Majeure ac am faint y disgwylir iddo barhau a beth fydd ei effaith debygol. Oni roddir rhybudd o'r fath yn unol â hyn atelir y cyfryw barti rhag hawlio ymwared dan y Cymal C hwn. Rhaid i'r parti sy'n hawlio ymwared hysbysu'r parti arall yn ddi-oed ar ôl i'r Digwyddiad Force Majeure dan sylw ddod i ben.

- 2.13 Bydd y parti sy'n hawlio ymwared dan y Cymal C hwn yn:  
(a)Defnyddio pob ymdrech resymol i osgoi, lleihau i'r eithaf neu ddileu'r Digwyddiad Force Majeure dan sylw.  
(b)Rhoi cyfleusterau rhesymol i'r parti arall gael gwybodaeth bellach am y Digwyddiad Force Majeure hwnnw.
- 2.14 Bydd amgylchiadau neu ddigwyddiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y parti'n cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) anrhefn sifil, terfysg, streiciau, cloi allan, gweithredoedd Duw, storm, llifogydd, niwl trwchus parhaus, eira, daearyngryfeydd neu dirlithriad, tân, ffrwydrad, peiriannau'n torri, adeileddau'n syrthio, gweithredoedd llywodraeth neu unrhyw asiantaeth, cangen, adran neu gynrychiolydd ohoni, cydymffurfio gwirfoddol neu orfodol ag unrhyw gyfarwyddyd, cais neu orchymyn gan unrhyw awdurdod llywodraethol.

### 3. Iechyd a Diogelwch

- 3.1 Gwnaiff y llogwr hysbysu'r ganolfan am unrhyw ymwelwyr gyda gofynion neu anghenion arbennig wrth archebu. Mae Datganiad Mynediad ar wefan y Ganolfan Rheolaeth.
- 3.2 Bydd y llogwr yn hysbysu'r ganolfan am unrhyw offer trydanol trydydd parti a fydd yn dod ar y safle. Mae'r llogwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w ddefnyddio (e.e. dan flwydd oed neu wedi ei brofi i fod yn drydanol ddiogel (PAT)). Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn cadw'r hawl i wrthod caniatâd i ddefnyddio offer os yw'r Ganolfan yn credu y byddai hynny'n peryglu'r Ganolfan, ei staff, ei hymwelwyr neu'r llogwr. Nid oes rhaid i'r Ganolfan Rheolaeth roi rheswm dros y penderfyniad hwnnw.
- 3.3 Bydd y llogwr yn sicrhau bod ei gynrychiolwyr yn cael yr wybodaeth iechyd a diogelwch a'r wybodaeth gyffredinol berthnasol cyn dechrau'r digwyddiad (e.e. lleoliad yr allanfeydd tân a'r manau ymgynnull, toiledau, ac ati).
- 3.4 Ceir taflenni gwybodaeth iechyd a diogelwch ym mhob ystafell gyfarfod ac mae copïau hefyd ar gael yn y dderbynfia.

### 4. Atebolrwydd, Trwydded ac Yswiriant

- 4.1 Ni fydd y Ganolfan Rheolaeth yn atebol am unrhyw ddamwain neu anaf i bobl sy'n defnyddio eiddo'r Ganolfan nac i unrhyw drydydd parti, yn unol â'r polisi archebu hwn.
- 4.2 Cyfrifoldeb y llogwr sy'n gwneud yr archeb yw gofalu am yswiriant. Mae'n ofynnol i logwyr drefnu eu hyswiriant eu hunain ac mae'n rhaid iddynt gadw'r yswiriant angenrheidiol, ac mae'n rhaid iddynt allu dangos prawf i'r Ganolfan Rheolaeth, os ceisir hynny, bod y polisiâu yswiriant ar waith fel sy'n ofynnol.
- 4.3 Mae'n rhaid i'r llogwr gytuno i indemnio a chadw'r Ganolfan Rheolaeth wedi ei hindemnio rhag ac yn erbyn pob colled, difrod, costau, ceisiadau, hawliadau, treuliau neu daliadau y gall ddod i'r Ganolfan yn sgil unrhyw fater sy'n deillio o ddefnyddio'r llety neu'r amodau sy'n ymwneud â hynny, ac i dalu unrhyw symiau i'r Ganolfan, ar ei chais, a all fod yn daladwy oherwydd yr indemniad hwn.
- 4.4 Nid yw'r Ganolfan Rheolaeth yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddodrefnyn, eiddo personol neu eiddo arall a adewir mewn ystafelloedd, ac mae ganddi'r hawl i waredu ag eiddo o'r fath a'r cleient fydd yn gyfrifol am gost hynny.
- 4.5 Nid oes gan y Ganolfan Rheolaeth drwydded hapchwarae at ddibenion Deddf Hapchwarae 2005.
- 4.6 Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn cadw'r hawl i amrywio'r cyfleusterau a gynigir, a lle bo'r angen, gall newid yr ystafell sydd ar gael yn ôl ei disgresiwn.
- 4.7 Mae teledu cylch cyfyng ar waith yn y ganolfan ac ar ei thir at ddibenion atal a chanfod troseddau. Defnyddir yr offer hwn yn unol â chanllawiau'r Ddeddf Diogelu Data.

### 5. Defnyddio'r Ganolfan

- 5.1 Defnyddir y Ganolfan Rheolaeth at y dibenion a nodwyd wrth archebu. Ni fydd y cleient yn defnyddio'r ystafell i bwrpas ac eithrio mewn cysylltiad â busnes y cleient ac ni fydd yn caniatáu defnyddio'r ystafell ar gyfer unrhyw weithgarwch anghyfreithlon.
- 5.2 Dim ond y rhannau hynny o'r adeilad a'r cyfleusterau a bennir yn y ffurflen archebu a ddefnyddir gan y llogwr. Nid yw llogi yn rhoi hawliau i feddiannu ystafelloedd eraill, darlithfeydd neu swyddfeydd, nid yw ychwaith yn rhoi hawliau neilltuoel i fannau cyffredin fel y caffî, y bwyty neu'r Bar Lolfa. Dylai llogwyr barchu unrhyw fannau a ddynodir na chaiff ymwelwyr fynd iddynt, gan gynnwys swyddfeydd y staff.
- 5.3 Ni fydd y Ganolfan Rheolaeth yn atebol os nad yw cyfleusterau'r Ganolfan ar gael am resymau nad ydynt yn gysylltiedig â'r ystafelloedd neu'r cyfleusterau a logwyd pan wnaed yr archeb.
- 5.4 Ni fydd y Ganolfan Rheolaeth yn atebol os yw nifer y cynrychiolwyr yn wahanol i'r nifer a nodwyd pan wnaed yr archeb.
- 5.5 Bydd y llogwr yn gyfrifol am ymddygiad y rhai sy'n bresennol ac am sicrhau nad yw'r gweithgareddau na'r bobl sy'n bresennol yn amharu ar staff y Ganolfan Rheolaeth, ymwelwyr neu ddefnyddwyr trydydd parti eraill.
- 5.6 Bydd y llogwr yn atebol am gostau ychwanegol os defnyddir ystafelloedd am gyfnod hwy na'r hyn a nodwyd pan wnaed yr archeb - h.y. cyfradd hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn.
- 5.7 Bydd y llogwr a'u cynrychiolwyr yn parchu rheolau a rheoliadau gorfodaeth parcio Prifysgol Bangor, yn cynnwys trefniadau parcio'r Ganolfan Rheolaeth, a gyflwynir cyn llogi. Sylwer mai nifer cyfyngedig o leoedd parcio sydd gan y Ganolfan Rheolaeth.
- 5.8 Nid yw llogi cyfleusterau yn rhoi hawl awtomatig i barcio yn y Ganolfan Rheolaeth.
- 5.9 Cedwir hawliau mynediad i bob rhan o'r Ganolfan Rheolaeth ar unrhyw bryd i staff y Ganolfan neu unrhyw swyddog awdurdodedig neu unrhyw un arall a awdurdodir gan y Ganolfan.

- 5.10 Mae rhyngwrwd diwifr ar gael ar gais ac mae'n rhaid i ddefnyddwyr gydymffurfio â'r holl bolisiau defnyddwyr derbyniol sydd mewn grym. Gellir gweld y polisi defnydd derbyniol trwy ddilyn y cyswllt canlynol:  
[http://www.bangor.ac.uk/itservices/policies/accept\\_use.php](http://www.bangor.ac.uk/itservices/policies/accept_use.php)
- 5.11 Ni chaniateir i'r llogwr roi arwyddion ychwanegol (e.e. arwyddion cyfeiriad) ar unrhyw ran o'r adeilad heb gytundeb penodol aelod o staff y Ganolfan Rheolaeth.
- 5.12 Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn cadw'r hawl i arddangos manylion yr holl gyfarfodydd a digwyddiadau ar ei sgriniau digidol yn y brif neuadd a'r cynteddau.
- 5.13 Nid yw llogi cyfleusterau ac arddangos gwybodaeth berthnasol gan y Ganolfan Rheolaeth yn golygu bod y Ganolfan Rheolaeth yn cefnogi'r llogwr, y cyfarfod na sefydliad y llogwr.
- 5.14 Ni cheir gwneud unrhyw newidiadau i adeiladwaith, offer na dodrefn yr adeilad. Mae'n rhaid hefyd cael cytundeb Rheolwr Cyfleusterau'r Ganolfan neu ei gynrychiolydd penodedig i ddefnyddio offer trydydd parti.
- 5.15 Rheolwr Cyfleusterau'r Ganolfan Rheolaeth yw cynrychiolydd awdurdodedig y Ganolfan ac mae ganddo'r grym i orfodi'r amodau llogi a gwrthod mynediad i bobl neu ofyn iddynt adael yr adeilad.
- 5.16 Bydd y llogwyr yn rhoi gwybod i'r Ganolfan ar unwaith ar ôl y cyfnod llogi am unrhyw ddigwyddiad, difrod neu weithgaredd arall a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod llogi. Codir tâl ar y llogwr am unrhyw doriadau yn ôl disgrisiwn y Ganolfan Rheolaeth.
- 5.17 Mae polisi 'Dim Ysmygu' ar waith ym mhob rhan o'r Ganolfan Rheolaeth. Gall ysmygu fod wedi ei ganiatáu mewn manau dynodedig y tu allan i'r adeilad. Mae'n ofynnol bod llogwyr a gwsteion yn cydymffurfio â'r polisi Dim Ysmygu sydd ar waith ar y pryd. Codir tâl cosb o £100.00 am ysmygu yn y Llety i Westeion, er mwyn glanhau'r ardal yr effeithiwyd arni yn drwyadl.

## 6. Arlwyio

- 6.1 Mae gan y Ganolfan Rheolaeth ei chyfleusterau arlwyio ei hun a bydd y Llogwr yn archebu unrhyw wasanaeth arlwyio ar gyfer yr ystafell a logwyd yn y Ganolfan Rheolaeth gyda staff y Ganolfan wrth archebu. Ni fydd y llogwr yn defnyddio unrhyw wasanaeth arlwyio allanol heb gytundeb ysgrifenedig gan y Ganolfan Rheolaeth ymlaen llaw, ni fydd y llogwr ychwaith yn trefnu gwasanaethau'n uniongyrchol gyda gwasanaeth arlwyio'r Ganolfan Rheolaeth ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir yn unrhyw ran o'r Ganolfan heb gytuno ymlaen llaw gyda'r Ganolfan Rheolaeth.
- 6.2 Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn cadw'r hawl i drefnu gwasanaeth arlwyio o ffynonellau allanol i fodloni gofynion y llogwr pe byddai angen hynny.
- 6.3 Mae'n rhaid i'r llogwr gadarnhau nifer y bobl fydd yn dod i'r digwyddiad o leiaf 7 diwrnod cyn y digwyddiad ar gyfer bwffe neu 14 diwrnod ar gyfer  
Bydd y Ganolfan Rheolaeth yn anfonebu am arlwyio yn seiliedig ar y niferoedd a roddir ac ni fydd yn lleihau'r costau am newidiadau a wneir o fewn y 72 awr hon.
- 6.4 Ni fydd y Ganolfan Rheolaeth yn atebol am unrhyw golledion a ddaw yn sgil niferoedd llai na'r disgwyl, nac am unrhyw gostau a ddaw yn sgil niferoedd mwy na'r disgwyl.
- 6.5 Cyfrifoldeb y Llogwr yw costau ychwanegol yn deillio o ddefnyddio caffï neu fwyty'r Ganolfan. Gellir trefnu 'tab' yn y caffï neu'r bwyty, yn ôl disgrisiwn y Ganolfan Rheolaeth, a chaiff ei dalu yn unol â'r anfoneb derfynol.
- 6.6 Nid yw'r Ganolfan Rheolaeth yn gwarantu y bydd y gwasanaeth arlwyio ar gael os nad yw'n gysylltiedig â defnydd y llogwr o'r Ganolfan Rheolaeth – er enghraifft gwasanaethau bwyty gyda'r nos.
- 6.7 Gall y Ganolfan Rheolaeth, yn ôl ei disgrisiwn, ofyn am flaendal ychwanegol ar gyfer rhai digwyddiadau sydd ag anghenion staffio/ arlwyio trwm (e.e. gwleddoedd, cynadleddau, priodasau, ac ati).
- 6.8 Bydd costau canslo hefyd yn berthnasol i arlwyio. Os caiff archeb ei chanslo llai na 72 awr cyn y digwyddiad, bydd yn rhaid talu 100% o'r costau.

## 7. Cyffredinol

- 7.1 Cytundeb rhwng y Ganolfan Rheolaeth a'r llogwr yw hwn ac ni ellir ei drosglwyddo.
- 7.2 Mae'r cytundeb hwn yn gontract i'r Ganolfan Rheolaeth ddarparu gwasanaethau i'r llogwr ac mae'r llogwr yn cydnabod na chaiff unrhyw denantiaeth, prydles neu hawl i feddiannu ei greu o blaid y llogwr.
- 7.3 Mae gan aelodau o Glwb Busnes Prifysgol Bangor hawl i gael 10% o ostyngiad o'r raddfa archebu Fasnachol i logi'r cyfleuster ond NID yw hyn yn berthnasol i unrhyw letygarwch.

## 8. Cosbau am Daliadau Hwyr

- 8.1 Codir y taliadau canlynol am daliadau hwyr, yn dibynnu ar ddyddiad yr anfoneb:
  - +10% os yw 31-60 diwrnod;
  - +15% os yw 60-90 diwrnod;
  - +25% os yw >91 diwrnod.

DYLID CYFEIRIO HOLL YMHOLIADAU A CHWYNION GAN GWSMERIAID YNGHYLCH TELERAU AC AMODAU'R  
BUSNES AT [info@themanagementcentre.co.uk](mailto:info@themanagementcentre.co.uk)